

Crëwch ffosil eich hunan adre gan ddefnyddio rysáit toes halen syml

Bydd angen:

- Un cwpan o flawd
- Hanner cwpanaid o halen
- Hanner cwpanaid o goffi du oer
- Bowlen gymysgu
- Gwrthrychau bach fel cregyn, deinosoriaid tegan bach, dail, planhigion neu flodau

Cyfarwyddiadau:

- Cymysgwch y blawd a'r halen.
- Ychwanegwch y coffi yn araf nes bod y gymysgedd yn ffurfio toes.
- Tylinwch y toes ar wyneb gwastad, nes iddo ddod yn llai gludiog ac y gall ffurfio siâp
- Unwaith y byddwch chi'n hapus â'ch cymysgedd, patiwch ddarnau o does yn gylchoedd. Nid oes angen iddynt fod yn berffaith, y lleiaf perffaith ydyn nhw - y gorau!
- Pan fydd gennych ddetholiad o gylchoedd toes, dewiswch rai gwrthrychau diddorol i'w roi arnynt. Rydyn ni eisiau creu argraffnod.
- Fe wnaethon ni roi'r gwrthrych ar y toes a'i dynnu. Nid oes angen aros am 25,000 o flynyddoedd am y ffosiliau hyn!
- Gadewch iddyn nhw sychu. (fe allech chi hefyd eu pobi yn y popty ar wres uchel am 2 awr)
- Ar ôl iddynt sychu, gallwch eu haddurno os dymunwch

